# Gwybodaeth wrth ryddhau cleifion ar ôl Tynnu Stent Wreterig

## Ôl-ofal:

- Efallai y byddwch chi'n profi'r canlynol am y 24-48 awr nesaf:
  - Teimlad o losgi neu bigo wrth basio wrin.
    - Gall bath cynnes neu roi gwlanen gynnes wlyb ar agoriad yr wrethra roi rhywfaint o esmwythder.
  - Wrin wedi'i staenio â gwaed.
- Efallai y byddwch yn sylwi ar rywfaint o boen yng ngwaelod yr abdomen, a gallwch gymryd parasetamol yn rheolaidd ar gyfer hyn.
- Dylech geisio yfed tua 3 litr dros y 24 awr nesaf er mwyn lleihau'r risg o haint, oni bai eich bod wedi cael cyngor gwahanol.
- Dylech osgoi gwneud gweithgarwch egnïol am ychydig ddyddiau

## Cysylltwch â'ch Meddyg Teulu, 111 neu'r Hwb Llawfeddygol os ydych chi'n profi:

- Poen yn gwaethygu wrth basio wrin.
- Twymyn.
- Wrin cymylog neu sy'n arogli'n wael.
- Gwaedu parhaus neu sy'n gwaethygu.

## Gwybodaeth ychwanegol:

https://www.baus.org.uk/_userfiles/pages/files/Patients/Leaflets/Flexible%20cystoscopy.pdf

## Rhifau cyswllt allweddol

Os oes gennych unrhyw bryderon gallwch gysylltu â:

**Eich Meddyg Teulu** neu **111**

Ward T5 Ysbyty Athrofaol Cymru (24 awr): **02921 842125**

Ward B5 Ysbyty Athrofaol Cymru (24 awr): 02921 843418

Hwb Llawfeddygol (7am-7pm Dydd Llun-Dydd Gwener) – **02921 826510 neu 02921 826348**